



## Tabl o gymwysterau gofynnol ar gyfer rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru

Mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ymarfer fel y rheolwr cofrestredig mewn gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru. Er mwyn cofrestru, rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'r rheoliadau'n mynnu bod rhaid i bobl sydd wedi'u henwi i ddirprwyo i reolwr cofrestredig fod yn gymwys fel rheolwr gofal cartref a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd. Gellir darllen rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru ar ein gwefan - [rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

### Rheolwr Gofal Cartref

<b>Cymwysterau cyfredol angenrheidiol</b>	<p>Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon: os ydych yn gweithio gydag oedolion</p> <p><b>neu</b></p> <p>Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon: os ydych yn gweithio gyda phlant</p> <p>Rhaid i Nyrs Gofrestredig Lefel Gyntaf feddu ar <b>naill ai</b> :</p> <p>Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion / Plant a Phobl Ifanc fel <b>sy'n briodol</b>) Cymru a Gogledd Iwerddon</p> <p><b>neu</b></p> <p>NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) (a aseswyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol)</p> <p>Rhaid i nyrs gofrestrdig gyda NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth (QCF) hefyd gwblhau'r Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon cyn adnewyddu cofrestriad.</p>
---	---

**Mwy o gymwysterau ar y tudalen nesaf**



## Rheolwr Gofal Cartref

<p><b>Cymwysterau eraill sydd hefyd yn dderbyniol ar gyfer cofrestru</b></p>	<ul style="list-style-type: none"><li>• NVQ 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal</li><li>• NVQ 4 Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig</li><li>• NVQ 4 Rheolaeth (a aseswyd mewn lleoliad gofal)</li><li>• NVQ 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc <b>fel sy'n briodol</b>)</li><li>• NVQ 4 mewn Gofal</li><li>• Diploma mewn Rheolaeth Gofal Cartref</li></ul> <p>Neu, am y rai a gofrestrwyd cyn 2014:</p> <p>Cymhwyster gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal/ Gofal Cymdeithasol Cymru</p>
--	---

Ystyrir bod deiliaid unrhyw gymhwyster gofal cymdeithasol arall y mae Gofal Cymdeithasol Cymru neu Gyngor Gofal o'r farn ei bod yn gyfwerth â'r rhai a restrir yn yr Atodlen hon wedi cwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r dis-grifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r gofyniad yn ymwneud ag ef at ddibenion adran 84(b) (ii) y Ddeddf.



## Islaw lefel rheolwr

I gofrestru, mae'n rhaid i chi feddu ar un o'r cymwysterau a restrir isod. Mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal cartref gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn mis Ebrill 2020.

<b>Cymwysterau cyfredol angenrheidiol</b>	<p>Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon</p> <p>neu</p> <p>Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon</p> <p>neu</p> <p>Os ydych chi'n gweithio gyda phlant: Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru a Gogledd Iwerddon</p>
<b>Cymwysterau eraill sydd hefyd yn dder-byniol ar gyfer cofrestru</b>	<p><b>NVQ 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc) fel sy'n briodol</b></p> <p>NVQ 3 mewn Gofal NVQ 3 mewn Hybu Annibyniaeth NVQ 3 mewn Gofalu am Blant a Phobl Ifanc NVQ 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol NVQ 2 mewn Gofal Diploma Lefel 2 mewn Gofal Iechyd Clinigol Diploma Lefel 3 mewn Gofal Iechyd Clinigol Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Therapi Galwedigaethol Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Ffisiotherapi Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Ailalluogi Nyrs gofrestredig lefel gyntaf.</p> <p>Cymhwyster gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal/Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cynnwys Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol, DipSW, CQSW, CSS</p> <p>Rhestrir cymwysterau sy'n dderbyniol o wledydd eraill y Deyrnas Unedig yn y fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cartref.</p>



Os ydych ddim yn dal un o'r cymwysterau gofynnol, mae gan weithwyr gofal cartref dau lwybr arall i gofrestru hyd at Ebrill 2020:

- Gall gweithwyr sydd wedi bod mewn rôl gofal cartref am dri o'r pum mlynedd ddiwethaf gael eu hasesu gan eu rheolwr yn erbyn y cymwyseddau gofynnol. Gall y rheolwr ddarparu datganiad arwyddedig sy'n cadarnhau cymhwysedd y gweithiwr fel ymarferydd cyfreithlon, diogel ac effeithiol. Ni fydd angen cymhwyster pellach i ail-gofrestru ymhen tair blynedd
- Gall gweithwyr a all fod yn rhan-amser, heb gymhwyster ac sydd heb weithio mewn gofal cartref am dair o'r pum mlynedd diwethaf wneud cais i gofrestru trwy gwblhau cwrs ac asesiad byr ar-lein yn llwyddiannus. Bydd hwn yn rhoi iddynt wobwr gwerthoedd ac egwyddorion Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar ôl cofrestru, bydd angen iddynt gwblhau cymhwyster gofynnol cyn y mae'n rhaid iddynt ail-gofrestru ymhen tair blynedd.